**Jayne Bryant AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**
**Cabinet Secretary for Housing and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ref: PO/JB/480/2025

2 Hydref 2025

Annwyl gydweithiwr,

Hoffwn eich gwneud yn ymwybodol o'r cymorth gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael i berchnogion tai sy'n cael, neu'n wynebu, anhawster ariannol wrth dalu eu morgais.

Gobeithio eich bod eisoes yn ymwybodol o'r cymorth pwysig y mae cynllun Cymorth i Aros - Cymru yn ei gynnig. Rwy'n hynod falch ein bod, fel Llywodraeth, wedi cyflwyno'r cynllun hwn mewn amser economaidd anodd i gefnogi perchnogion tai i aros yn eu cartrefi eu hunain. Rwy'n ceisio eich cefnogaeth i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cynllun. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn gofyn bod negeseuon allweddol am y cynllun yn cael eu lledaenu ledled eich sefydliad, ac rydych yn annog aelodau staff i gyfeirio perchnogion tai mewn trafferthion ariannol i gynllun Cymorth i Aros - Cymru.

Gall Cymorth i Aros - Cymru ddarparu cyngor ariannol neu forgais annibynnol i berchnogion tai a **benthyciad ecwiti di-log 5 mlynedd** i leihau eu taliadau morgais misol i lefel fforddiadwy. Ni fydd angen i bobl sy’n cael y benthyciad ddechrau talu'r benthyciad yn ôl am 5 mlynedd, ac ni fydd llog yn cael ei gymhwyso yn ystod y cyfnod hwn.

Pwrpas y cynllun yw **cadw pobl yn eu cartrefi** drwy gynnig **cyngor ariannol arbenigol** iddynt yn gyntaf i helpu i leddfu pwysau ariannol sy'n debygol o arwain at ôl-ddyledion morgais. Ar ôl asesiad ariannol annibynnol, gellir cynnig benthyciad ecwiti. Bydd y benthyciad yn cael ei ddefnyddio i dalu ôl-ddyledion morgais presennol a lleihau'r balans morgais sy'n weddill, gan leihau eu taliadau morgais misol parhaus i swm y gallant ei fforddio'n gyfforddus dros y tymor canolig, a darparu cymorth yn ystod y cyfnod anodd hwn o gyfraddau chwyddiant cynyddol a chostau byw uwch.

Gall y **benthyciad ecwiti** gael ei gynnig am gyfnod hyd at 15 flynedd. Bydd angen ad-dalu naill ai ar ddiwedd y tymor 15 mlynedd neu pan fydd yr eiddo yn cael ei werthu.

Bydd perchnogion tai sy'n gymwys o dan y cynllun yn cael **cyngor rhad ac am ddim am forgeisi oddi wrth arbenigwyr sy'n cynghori ar ddyledion**, a bydd y costau'n cael eu talu'n llawn gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn fodd i sicrhau bod yr ymgeisydd wedi cael cyngor annibynnol am yr opsiynau sydd ar gael iddo, i gadarnhau nad oes unrhyw atebion eraill posibl ac i gadarnhau, ar ôl edrych ar amgylchiadau'r ymgeisydd ar y pryd, y lefelau o

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jayne.Bryant@llyw.cymru
Correspondence.Jayne.Bryant@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddyled y byddai'n rhesymol iddo fedru fforddio'i had-dalu. Bydd y cyngor hwn yn cael ei ailadrodd cyn i gwsmer ymrwymo i'w gyfnod llog.

Hyd yn hyn, rydym wedi cael rhywfaint o lwyddiant wrth ddarparu cymorth i'r rhai sydd ei angen. Fodd bynnag, o ystyried y costau byw cynyddol, mae methu talu ad-daliadau morgeisi yn bryder gwirioneddol i lawer o berchnogion tai yng Nghymru ac rwy'n parhau i bryderu am hynny. Hoffwn ailadrodd y byddwn yn croesawu eich cefnogaeth i sicrhau bod y rhai a allai elwa ar gynllun Cymorth i Aros - Cymru yn ymwybodol ohono.

Am ragor o wybodaeth, gan gynnwys meini prawf cymhwystra, gweler: Cael help i dalu eich morgais gyda benthyciad ecwiti a rennir Cymorth i Aros.

Gellir dod o hyd i asedau ar gyfer y cyfryngau i hyrwyddo'r cynllun yma. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech rannu'r asedau hyn gyda thimau cyfathrebu a staff rheng flaen a'u hychwanegu (yn ogystal â dolen i wefan Cymorth i Aros – Cymru) at eich gwefan. Byddwn yn croesawu eich cefnogaeth i hyrwyddo'r cynllun i sicrhau bod cymaint a phosibl yn manteisio arno a chefnogi perchnogion tai i aros yn eu cartrefi eu hunain.

Bydd fy swyddogion Elinor Savage a Laura Brown – Elinor.Savage@llyw.cymru / Laura.Brown@llyw.cymru yn cysylltu â swyddogion perthnasol yn eich sefydliad i gynnig cyfle i drafod y cynllun ac i ddeall sut y gellid hyrwyddo'r cynllun yn lleol. Cysylltwch â'm swyddogion os oes gennych unrhyw gwestiynau ar unwaith.

Yn gywir,

**Jayne Bryant AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai
Cabinet Secretary for Housing and Local Government